Llŷn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty

Rhif 16 • 2022

www.ahne-llyn.aonb.cymru

# Llygad Llŷn

Newyddlen AHNE Llŷn

am ddim

*Yn y rhifyn hwn*

Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy


GwyrddNi

Pen-blwydd Llwybr Arfordir Cymru

Pwyntiau Hanesyddol

Ffrindiau'r AHNE









ardal arbennig

# CROESO

**Croeso i'r rifyn diweddaraf o Llygad Llŷn – sef newyddlen flynyddol Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn.**

Bu 2021 eto yn flwyddyn anodd i lawer ohonom oherwydd y pandemig. Er y bu gwelliant yn y sefyllfa dros yr haf fe ddaeth y math Omicron o'r feriws at ddiwedd y flwyddyn a bu cynnydd mewn achosion a chyfyngiadau unwaith eto. Fodd bynnag, wrth ysgrifennu'r pwt yma ar ddechrau 2022 mae pethau yn argoeli yn well. Gobeithio felly y bydd 2022 yn flwyddyn lle bydd cyfyngiadau yn dod i ben ac y bydd yn bosib i bobol eto ddod at ei gilydd i gyfarfod, cymdeithasu a chydweithio.

Yn y rhifyn hwn o Llygad Llŷn cewch wybodaeth am brosiectau amgylcheddol, Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy, nodweddion lleol o ddiddordeb a chanlyniadau y gystadleuaeth ffotograffiaeth a gynhaliwyd llynnedd. Hefyd mae erthyglau ar benblwydd y Llwybr Arfordir Cenedlaethol, Pwyntiau Gwybodaeth Hanesyddol a phrosiect newydd GwyrddNi.

Rydym yn awyddus iawn i glywed eich barn am Llygad Llŷn ac am waith yr Uned AHNE. Hefyd hoffem glywed eich syniadau am brosiectau newydd fyddai o les i'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol neu bethau yr ydych yn meddwl sydd angen sylw. Cysylltwch ar bob cyfri ar e-bost, trwy y wefan, ar y ffôn neu drwy lythyr.

# CYNNWYS

Eitemau

Croeso a Map ........................................2,3
Pwyntiau Hanes ........................................4
Prosiectau Cyfalaf ........................................5
Tŷ Tan yr Allt ........................................6
Ffrindiau yr AHNE ........................................7
Ffynnon Saint ........................................8
Llwybr Arfordir Cymru yn 10 oed ............9
Cystadleuaeth Ffotograffiaeth ...............10
Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy ........11-13
Cynllun Adfer Natur ..............................14
Ardal Cadwraeth Morol .........................15
GwyrddNi ........................................16

## MANYLION CYSWLLT

AHNE Llŷn
Gwasanaeth Cefn Gwlad
Adran Amgylchedd
Swyddfa Cyngor Gwynedd
Ffordd y Cob
Pwllheli
Gwynedd LL53 5AA

**Ffôn** 01758 704 155 | 01758 704 194

**E-bost** ahnellynaonb@gwynedd.llyw.cymru

**Gwefan** www.ahne-llyn-aonb.cymru

Dilynwch ni ar Instagram!
@ahnellynaonb

**CYHOEDDWYD GAN:** Uned AHNE Llŷn

**LLUN CLAWR:**
Ynys Fawr, Trefor gan Steve Evans

**ARGRAFFWYD GAN:**
Gwasg Carreg Gwalch, Llwyndyrys a Llanrwst

**CEFNOGWYD GAN:**
Cyngor Gwynedd Council
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales

## TÎM AHNE LLŶN – mae tri aelod o staff yn gweithio yn y gwasanaeth:

**Swyddog AHNE Llŷn**
**Bleddyn Prys Jones**

Mae Swyddog AHNE Llŷn yn arwain gwaith Cyngor Gwynedd ar faterion craidd yr AHNE a delio gyda materion cenedlaethol.

**Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn**
**Morus Llwyd Dafydd**

Y Swyddog Prosiectau sy'n arwain ar brosiectau yr Uned AHNE, gweinyddu'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy a hyrwyddo'r AHNE.

**Warden Cefn Gwlad AHNE**
**Kevin Roberts**

Gyda chymorth ariannol gan Llywodraeth Cymru mae'r Uned wedi penodi Warden Cefn Gwlad yn ddiweddar. Bydd y warden yn arwain ar brosiectau mynediad a natur yn yr AHNE.


ALLWEDD
KEY
ATYNIADAU #ECOAMGUEDDFA
#ECOAMGUEDDFA ATTRACTIONS
LLWYBR ARFORDIR
LLŶN COASTAL PATH
CYLCHDEITHIAU
CIRCULAR WALKS
BWS ARFORDIR LLŶN (CODI A GOLLWNG TEITHWYR)
LLŶN COASTAL BUS (PICK UP & DROP OFF POINTS)
BWS ARFORDIR LLŶN (Y LLWYBR)
LLŶN COASTAL BUS (THE ROUTE)
CYLCHDEITHIAU BEICS LLŶN
LLŶN CIRCULAR CYCLE ROUTES
ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL
AREA OF OUTSTANDING NATURAL BEAUTY
ARDAL CADWRAETH ARBENNIG
SPECIAL AREA OF CONSERVATION
CORS GEIRCH
CORS GEIRCH NATURE RESERVE
MYNYDDOEDD O DDIDDORDEB
MOUNTAINS OF INTEREST
FFYRDD A4
A4 ROADS
FFYRDD B4
B4 ROADS
RHEILFFORDD A GORSAF
RAILWAY AND STATION
Caernarfon
Porthmadog
Trwyn Maen Dylan
Aberdesach
Clynnog Fawr
Capeluchaf
Gyrn Goch
Gyrn Ddu
Bwlch Mawr
Bwlch Derwin
Mynydd Cennin
Hendre Cennin
Llangybi
Ffynnon Cybi
Llanystumdwy
Chwilog
Llanarmon
Pencaenewydd
Y Ffôr
Abererch
Pwllheli
Llanaelhaearn
Trefor
Yr Eifl
Llithfaen
Nant Gwrtheyrn
Carreg Llam
Pistyll
Nefyn
Garn Boduan
Boduan
Rhos-fawr
Pentreuchaf
Llannor
Efailnewydd
Llwyndyrys
Rhydyclafdy
Penrhos
Llanbedrog
Mynydd Tir y Cwmwd
Abersoch
Llanengan
Bwlchtocyn
Porth Ceiriad
Trwyn Cilan
Ynysoedd Tudwal
St Tudwal's Island
Porth Neigwl
(Hells Mouth)
Llangian
Mynytho
Foel Gron
Ffynnon Fyw
Capel Newydd
Nanhoron
Botwnnog
Sarn Meillteyrn
Bryncroes
Llaniestyn
Cromlech Cefnamwlch
Garn Fadryn
Dinas
Edern
Morfa Nefyn
Porthdinllaen
Carreg Ddu
Porth Ysgaden
Tudweiliog
Porth Colmon
Llangwnnadl
Mynydd Rhiw
Rhiw
Ynysoedd Gwylan
Rhydlios
Rhoshirwaun
Capel Carmel
Penrhyn Mawr
Porthor
Aberdaron
Ffynnon Saint
Uwchmynydd
Mynydd Mawr
Pen y Cil
Swnt Enlli / Bardsey Sound
Aberdaron Santes Fair
Ynys Enlli
Bardsey Island

# Pwyntiau Hanes Ymateb Cyflym (QR)

Wrth grwydro o amgylch ardal arfordirol Llŷn efallai eich bod wedi sylwi ar arwyddion bychan gwyrdd yma ac acw efo enwau lleoedd arnynt. Arwyddion Pwyntiau Hanes ("History Points") ydyn nhw ar gyfer cael gwybodaeth hanesyddol am leoliad trwy ddefnyddio ffôn clyfar ("smartphone"). Y cwbl sydd angen ei neud ydi sganio y côd Ymateb Cyflym ("Quick Response/ QR") gyda eich ffôn symudol a bydd gwybodaeth am y safle yn agor ar dudalen we. Yn ogystal â gwybodaeth mae hen luniau diddorol i'w gweld.

Mae'r Uned AHNE wedi cydweithio efo prosiect Pwyntiau Hanes drwy gyfieithu yr wybodaeth am holl safleoedd Llŷn i'r Gymraeg ac awgrymu safleoedd ar gyfer gosod placiau ychwanegol.

Dyma rhai enghreifftiau o'r wybodaeth ar ambell i safle yn yr AHNE:

Ger Llanbedrog cewch hanes dau ddyn o Benrhyn Llŷn a gafodd eu crogi yn 1629 am arwain llong Ffrengig at y creigiau a chael ei dryllio.

Yn Mhorth Colmon cewch hanes y llongddrylliad yn 1901, pan aeth llong Y Stuart, oedd yn cludo wisgi a pianos, i wrthdrawiad yn erbyn y creigiau. Digwyddodd yn Mhorth Tŷ Mawr (a elwir hefyd yn Borth Wisgi!) ag erbyn i'r awdurdodau lleol gyrraedd, roedd llawer o gargo y llong wedi diflannu. Roedd sôn fod sŵn tincial gwydr mewn pocedi amryw o drigolion Pen Llŷn ar ôl y digwyddiad yma.

Mae hanesion a lluniau diddorol eraill i'w canfod am Abersoch, Aberdaron, Nant Gwrtheyrn, Porthdinllaen a Porth Ysgaden a llawer o safleoedd eraill yn yr AHNE.

Felly cofiwch pan yn cerdded llwybr yr arfordir i gadw golwg am yr arwyddion bach gwyrdd !

Am fwy o wybodaeth gwelwch : **https://historypoints.org/**



# Prosiectau Cyfalaf



**Ers nifer o flynyddoedd mae'r 5 AHNE a'r 3 Parc Cenedlaethol yng Nghymru wedi derbyn grant gan Llywodraeth Cymru tuag at brosiectau amgylcheddol. Mae'r grant yn gysylltiedig â chronfa a elwir yn Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy. Cynigiwyd y grant yn 2021-22 tuag at brosiectau cyfalaf yn ymwneud â dadgarboneiddio, twristiaeth cynaliadwy, adfer natur a chefnogi cymunedau/ adferiad gwyrdd. Llwyddwyd i dderbyn arian o'r gronfa tuag at bedwar prosiect cyfalaf yn AHNE Llŷn sef:**

## Gwelliannau i Gei Trefor

Mae'r Cei yn Nhrefor yn strwythur hanesyddol a adeiladwyd ar gyfer allforio cerrig ithfaen o chwarel yr Eifl gerllaw. Yn y gorffennol roedd adeilad llwytho cerrig mawr ar y Cei yn gysylltiedig â'r chwarel ond fe dynnwyd yr adeilad hwn i lawr yn yr 1980au. Fodd bynnag roedd yr hen goncrid ar wyneb y Cei yn anwastad ac roedd darnau o hen haearn yn brigo'r wyneb mewn rhai mannu. Defnyddiwyd arian grant y gronfa i godi rhan o hen wyneb anwastad y cei ac ail-wynebu gyda concrid newydd, llyfn yn ogystal â gosod meinciau newydd. Mae'r ardal yn awr yn le mwy deniadol a braf i fod yno – yn mwynhau awyrgylch y môr a golygfeydd arbennig i bob cyfeiriad.

Yn ogystal defnyddiwyd cyllid o'r grant i dacluso a ail wynebu y maes parcio ger y Cei gan ei wneud yn fwy gwastad gyda lle mwy hwylus i barcio.

## Adnewyddu toiledau traeth Nefyn

Lleolir toiledau traeth Nefyn ar ymyl y Lôn Gam sy'n arwain i lawr at y môr. Roedd y toiledau mewn cyflwr gwael, yr adeilad ei hun yn flêr a'r cyfleusterau oddi mewn wedi dyddio. Defnyddiwyd arian grant o'r gronfa i adnewyddu'r toiledau yn gyfan gwbl. Bu cydweithio rhwng yr Uned AHNE, Ymgynghoriaeth Gwynedd ac Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol er mwyn gwireddu'r prosiect.

## Atgyweirio Trac Porth Meudwy

Mae Porth Meudwy yn parhau yn borthladd gweithredol yn cael ei ddefnyddio gan bysgotwyr lleol ac fel man cychwyn teithiau i Ynys Enlli. Yn ystod gaeaf 2019-20 cafodd rhan o'r trac (sy'n hawl tramwy cyhoeddus) ei ddifrodi yn sgil erydiad yn dilyn glaw trwm. Roedd ymyl y trac wedi ei golli mewn sawl man ac nid oedd yn ddiogel i gerbydau ei ddefnyddio. Defnyddiwyd cyfran o gyllid grant TCLC fel cyfraniad at waith rhan 2 i atgyweirio'r trac i Borth Meudwy, cafodd y gwaith ei gwblhau yn ystod haf 2021.

## Gwella llwybrau Llŷn

Prosiect arall oedd un i uwchraddio cyfres o lwybrau cyhoeddus allweddol yn yr AHNE. Ar ôl trafod gyda'r Uwch Swyddog Hawliau Tramwy cytunwyd ar nifer o leoliadau fyddai yn elwa o welliannau ar y ddaear sef:

Llwybr rhif 13 Clynnog yn ardal Tai'n Lôn.
Llwybr rhif 38A Llanengan ger Golff Abersoch
Llwybr rhif 89 Aberdaron ger Tŷ'n Lôn, Uwchmynydd
Llwybr rhif 46 Aberdaron, ardal Cadlan
Llwybr marchogaeth rhif 16 Pistyll, ger Llithfaen

Gwnaed nifer o welliannau i'r llwybrau dan sylw yn cynnwys torri tyfiant, gwella draenio, creu pontydd bychan a gosod giatiau newydd, mwy hwylus. Mae cerdded yn llesol i'r corff ac yn gyfle i bobl fwynhau yr amgylchedd naturiol a byd natur a'r gobaith yw y bydd y gwelliannau hyn yn hwyluso mwy o ddefnydd o'r llwybrau dan sylw.

# Tŷ Tan-yr-Allt Aberdaron



Un o gerddi enwocaf Cynan ydi "Aberdaron". Mae gan y gerdd bedwar pennill, yn aml wedi'u crynhoi'n ddau. Mae'r gerdd yn disgrifio awydd y bardd i ymddeol yn y pen draw i fwthyn anghysbell, "heb ddim o flaen ei ddôr. ond creigiau Aberdaron a thonnau gwyllt y môr". Mae'n dychmygu sut y bydd byw yno yn ailgynnau emosiynau a deimlai yn ei ieuenctid.

Ers blynyddoedd mae pobl wedi bod yn dyfalu lle yn union oedd y bwthyn yma. Credir erbyn hyn mai Tŷ Tan yr Allt yw'r bwthyn ger llwybr yr arfordir o Aberdaron tuag at Porth Meudwy.



Mae y lleoliad yma yn cyd fynd â geiriau y gerdd i'r dim. Cafodd Cynan ei eni yn 1895 ag ysgrifennodd y gerdd yma yn y 1920au cynnar. I'r rhai ohonoch sydd yn hoff o wrando ar Bwncath, cerdd Cynan sydd yn cael ei chanu yn y gân "Aberdaron".

Bardd yn enedigol o Pwllheli oedd Cynan, a cafodd ei addysg yn ysgol Ramadeg Pwllheli, a Choleg Prifysgol Gogledd Cymru. Ar ôl graddio ymunodd Cynan â'r fyddin yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, lle buodd yng Nghwmni Cymreig y Corfflu Meddygol, fel dyn ambiwlans ag yna fel caplan. Cafodd erchyllterau y rhyfel effaith mawr arno a dylanwad ar ei gerddi.



Yn ddiweddarach yn ei fywyd, dywedir fod Cynan eisiau prynu'r tŷ ond nid oedd ganddo'r arian gan mai gweinidog tlawd efo'r Methodistiaid ydoedd. Yn y diwedd cafodd y tŷ ei brynu gan ddiwydiannwr cyfoethog o Loegr. Mae'r adfeilion a'r tir sydd yma bellach yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

# Ffrindiau yr AHNE

Sefydlwyd grŵp Ffrindiau AHNE Llŷn yn 2021 er mwyn rhoi cyfle i wirfoddolwyr gynorthwyo gyda gwaith ymarferol yn yr Ardal o Harddwch. Mae'r grŵp yn cyfarfod tua unwaith y mis i wneud gwaith fel torri tyfiant, cynnal llwybrau a chasglu sbwriel.





Hyd yn hyn mae'r grŵp wedi bod yn cynorthwyo i wneud gwelliannau i lwybr at Ffynnon Saint yn Y Rhiw, barbio llwybr ger pentref Llithfaen a chasglu sbwriel ar draeth Porth Neigwl. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r criw am eu hymdrech a'u hamser i gynnal a gwella nodweddion yr AHNE.



ffynnon saint

# Ffynnon Saint




Mae'r ffynnon hon ar lwybr a ddefnyddiwyd gan bererinion oedd yn anelu am Ynys Enlli, dros y swnt o Benrhyn Llŷn. Saif ychydig islaw safle gwaith cerrig Neolithig ar Fynydd Rhiw lle cafodd llafnau bwyell ac offer arall eu gwneud o gerrig. Mae nifer o safleoedd hynafol eraill yn ardal y Rhiw.

Ers i'r coed oedd yn yr ardal yma gael eu torri yn ddiweddar mae mynediad i Ffynnon Saint o gyfeiriad Tŷ'n y Parc wedi bod yn anodd oherwydd gor-dyfiant a brigau coed ar draws y llwybr. Gyda cymorth Ffrindiau yr AHNE mae gwaith clirio ac atgyweirio wedi ei wneud ar y llwybr, ag mae mynediad i'r safle erbyn hyn yn llawer gwell (er hynny os yn ymweld cofiwch ddod a dillad ag esgidiau addas, gall y llwybr fod yn fwdlyd!).

Mae adeiladwaith y ffynnon yn 9 troedfedd sgwâr, gyda waliau tua 2 droedfedd o drwch. Mae dwy set o risiau i fynd lawr iddi, roedd hyn yn gwneud trochi yn llawer haws. Oherwydd ei phwysigrwydd dynodwyd y ffynnon yn Adeilad Rhestredig gradd II gan Cadw. Mae'r waliau a'r grisiau yn drawiadol iawn, ac mae'n werth ymweld â'r safle. Heblaw am yr atyniad gweledol, mae teimlad o heddwch ger y ffynnon hanesyddol yma.

Mae'n debygol fod ffynnon ar y safle ymhell cyn y seintiau o'r 6ed ganrif a aeth heibio ar ei pererindod. Roedd Ffynnon Saint yn un o gadwyn o ffynhonnau sanctaidd ar hyd llwybr y pererinion, ag yn arwydd parhaol o'r trywydd cywir.



Mae John Jones (Myrddin Fardd) yn cyfeirio at Ffynnon Saint yn ei lyfr Llên Gwerin Sir Gaernarfon (1908). Ynddo mae'n nodi fod yn arferiad gan ferched ar Ddydd Iau Dyrchafael fynd at y Ffynnon i olchi eu llygaid a thaflu un bin i'r dŵr fel arwydd o ddiolchgarwch.





# Dathlu Pen-blwydd Llwybr Arfordir Cymru yn 10 oed

Ar Benrhyn Llŷn mae'r Llwybr Cenedlaethol yn dilyn arfordir yr AHNE o Aberdesach ar yr arfordir gogleddol i Carreg y Defaid ger Llanbedrog yn y de. Mae'r llwybr wedi ei ddatblygu a'i wella dros y blynyddoedd fel ei fod yn dilyn yr arfordir mor agos â phosibl. Mae'r Llwybr Arfordir yn darparu cyfle arbennig i weld harddwch arfordir Llŷn – gellir gweld y traethau amrywiol, creigiau geirwon a'r ynysoedd.



Ar Fai y 5ed 2012 y lansiwyd Llwybr Arfordir Cymru, felly mae'r llwybr yn dathlu 10 mlynedd eleni. Bydd nifer o ddathliadau ar lefel lleol yn cael eu cynnal trwy gydol Cymru yn ystod y flwyddyn. Bydd y dathliad yma yng Ngwynedd yn ystod y Gwanwyn a'r Haf gyda taith gerdded a nifer o siaradwyr gwadd. Mae'r llyfrau swyddogol ar gyfer y Llwybr Arfordir eisoes ar gael yn Saesneg, ond yn awr mae'r un ar gyfer ardal Arfon, Llŷn ac Eifionydd yn cael ei gyfieithu i'r Gymraeg a bydd yn cael ei lansio yn ystod y digwyddiad.

## Profiad digidol Llwybr yr Arfordir




Yn ôl yn 2019 bu Llwybr Arfordir Cymru yn llwyddiannus gyda cais i Google i gael llogi'r "Google Trekker". Teclyn yw hwn i dynnu lluniau o'r arfordir wrth gerdded y Llwybr Arfordirol. Y ffordd orau iw ddisgrifio yw fel sach deithio gyda ffurf fel pêl droed yn ymestyn ohono – mae hwn yn cynnwys 16 camera yn tynnu llun i bob cyfeiriad a hynny bob 3 eiliad. Mae'r Trekker yn pwyso tua 25kg sydd gymaint â bag o sment ! Roedd angen cario i y Trekker wrth gerdded y llwybr ac fel lwyddodd y tîm i gerdded 97% o'r Llwybr Arfordir yng Ngwynedd. Er i rhai fod yn feirniadol a deud pethau fel "sai'n well i bobol godi oddi ar y soffa a mynd allan i gerdded" credir fod y prosiect yn llwyddiant ac i bobol sydd yn gaeth i'r tŷ, neu gadair olwyn, mae yn gyfle gwych i fwynhau y golygfeydd godidog.



Unwaith y casglwyd y data gyda'r Trekker fe'i hanfonwyd yn ôl i Google i'w gyhoeddi ar Mapiau Google. Mae'r canlyniadau yn dda iawn ac mae'r delweddau'n dangos yr arfordir yn ei holl ogoniant. Mae'n syml iawn i'w ddefnyddio, ar ôl i chi lansio mapiau Google ar eich rhyngrwyd, chwyddwch i mewn i ardal benodol a llusgwch symbol y dyn melyn bach a'i ollwng ar y mapi, bydd hyn wedyn yn agor yr olygfa 360. Gallwch chi lywio'ch cyfeiriad a symud i unrhyw gyfeiriad ar hyd y llwybr.


# Cystadleuaeth Ffotograffiaeth 2021

**Pob dwy flynedd mae'r Uned AHNE yn cynnal cystadleuaeth ffotograffiaeth, nid oes cost am gystadlu, ag mae'r enillwyr yn derbyn tocynnau anrheg hyd at £100.**


Thema y gystadleuaeth llynedd oedd "Llŷn i mi". Cawsom nifer uchel o ymgeiswyr, a chafodd y beirniad amser anodd i ddewis y lluniau buddugol. Roedd y gystadleuaeth yma yn rhoi cyfle i ymgeiswyr arddangos nodweddion arbennig Penrhyn Llŷn ac yn annog eraill i werthfawrogi'r ardal brydferth yma. O ran cynnwys y lluniau rydym yn derbyn amrywiaeth enfawr- nodweddion bywyd gwyllt, ar y tir ag ar y môr, y tirlun hardd, ag yr arfordir dramatig.

Cawsom nifer o luniau yn arddangos yr arfordir a'r môr fel thema yn y gystadleuaeth eleni, sydd yn pwysleisio pwysigrwydd y môr i Benrhyn Llŷn ag ei fod yn cael dylanwad sylweddol ar gymeriad yr ardal.

Ar glawr y cylchgrawn gwelwch lun trawiadol o **Ynys Fawr yn Nhrefor** wedi ei dynnu oddi ar gaiac, gan **Steve Evans.** Y llun yma oedd enillydd y gystadleuaeth ffotograffiaeth. Cewch hyd i Ynys fawr i'r gorllewin o Trefor.



Cafodd y llun o'r **Seren fôr** yn y morwellt yn Mhorthdinllaen ei dynnu gan **Jake Davies**, dyma'r llun a gafodd ail yn y gystadleuaeth.



Yn drydydd yn y gystadleuaeth roedd llun **Dafydd Hughes** or **ddelw haearn y Llanbedrog.**

Mae'r cerflun yma a welir ar y pentir i'r de o Lanbedrog wedi ei osod ar safle lle roedd ffigwr blaen llong yn arfer bod yn yr 20fed ganrif.

Comisiynwyd y cerflun presennol gan Cyngor Gwynedd fel rhan o ddathliadau'r mileniwm. Gwaith yr artist Berwyn Jones a'r gof Hugh Jones, y ddau yn wreiddiol o Lanbedrog, yw'r cerflun.

**Lluniau a gafodd ganmoliaeth uchel yng nghystadleuaeth ffotograffiaeth Llygad Llŷn 2021:**

*Ruth Pritchard – Machlud ar fae Porthdinllaen*







*Greta Hughes – Y delw haearn,Llanbedrog wedi nosi*

*John Delap – Ynys Mawr Trefor, ar Eifl yn y cefndir*

# Cronfa Datblygu Cynaliadwy AHNE Llŷn



## Beth yw hi?

Cronfa grant gan Lywodraeth Cymru yw'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy, ac mae pob AHNE yn Nghymru yn derbyn arian ar gyfer ei ddyrannu i'r gymuned.

Mae gofyn i brosiectau llwyddiannus annog cynaladwyedd, a gwneud gwahaniaeth positif i gymunedau mewn ffyrdd amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol.

## Faint o arian sydd ar gael?

Mae'r Gronfa yn gallu cyfrannu hyd at **75%** o gostau eich prosiect. Mae rhai prosiectau angen cyn lleied â £100, gydag eraill yn gofyn am rai miloedd. Mae'n dibynnu yn llwyr ar y prosiect sydd dan sylw.

## Pwy sy'n cael ymgeisio?

Gall unrhyw grŵp, bwyllgor, ymddiriedolaeth neu gymdeithas ymgeisio am nawdd. Mae nifer fawr felly o enghreifftiau, yn cynnwys ysgolion, cynghorau cymuned, tafarndai neu siopau cymunedol, clybiau ffermwyr ifanc, cymdeithas pysgotwyr a phwyllgorau neuaddau pentref. Gall unigolion hefyd ymgeisio fel ymgeisydd preifat – cyn belled bod y prosiect yn cyrraedd y gofynion a chynnwys y gymuned gyfan.

## Beth ydi'r drefn ymgeisio?

Rydym yn eich annog yn gryf i gysylltu gyda ni i drafod unrhyw syniadau cyn cael copi o'r canllawiau a'r ffurflen gais. Rydym yn gwahodd ceisiadau drwy gydol y flwyddyn. Bydd ceisiadau am swm o dan £3,000 yn cael eu penderfynu gan staff Uned AHNE Llŷn. Bydd ceisiadau am fwy na hynny yn cael eu penderfynu gan Banel Grantiau. Mae'r Panel Grantiau yn is-grwp o Gyd-Bwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn.

## Sut ca'i fwy o wybodaeth?

Rydym yn rhannu llawer o wybodaeth am brosiectau sydd wedi derbyn nawdd ar ein cyfrif Instagram – **@ahnellynaonb** Gallwch hefyd gysylltu gyda staff Uned AHNE Llŷn am sgwrs i drafod unrhyw syniadau.

O dan yr amgylchiadau presennol y ffordd mwyaf hwylus o gysylltu yw dros e-bost. Dyma'r manylion: **ahnellynaonb@gwynedd.llyw.cymru**

**ENW PROSIECT: ANGOR NEFYN**
**Ymgeisydd: Cyngor Tref Nefyn**
**Grant: £2450**

Prif amcan y prosiect hwn oedd achub hen angor o draeth Pistyll, ac yna ei arddangos yr angor ger Glan y Pwll, Nefyn. Roedd yr angor yn drwm, a chymerodd 8 unigolyn i'w godi. Unwaith i'r lan aed â'r angor i Tudweiliog lle bu'r gof yn trwsio'r difrod a achoswyd dros y blynyddoedd o dan y môr. Angor o hen gwch hwylio oedd hi.

Mi fydd yr angor yma yn atgoffa pawb o gysylltiad agos sydd rhwng y trigolion a'r diwydiant morwrol a physgota yn Nefyn. Cysylltiad sydd yn mynd a ni yn ôl yn ddi-dor i'r oes Mesolithic â chynt. Mae'r diwydiant morwrol a physgota yn rhan bwysig o dreftadaeth yr ardal.





Mae'r Cae Chwarae Llithfaen yn adnodd cymdeithasol allweddol yn Llithfaen. Mae'n lle i blant a phobl ifanc ymgynnull i chwarae, cymdeithasu a chadw'n heini. Yn sgil hynny mae'n lle i'r rhieni ac aelodau teulu eraill gwrdd a chymdeithasu. Mae'r cae yn ymylu ar ffin Tafarn y Fic. Roedd y cae chwarae mewn cyflwr sâl iawn, roedd dŵr yn sefyll yng nghanol y parc, ag roedd mynediad yn cael eu effeithio oherwydd hyn. Y cam cyntaf or prosiect oedd i sychu y cae chwarae, wrth osod traeniau ar draws y safle.

Fel rhan o'r datblygiad crëwyd llwybrau o fynedfeydd y cae, o amgylch yr offer. Sefydlwyd y llwybrau fel modd o wella mynediad i blant a phobl sydd â phroblemau symudedd, ond hefyd fel llwybrau beics i blant a phobl ifanc y pentref.



**ENW PROSIECT: CAE CHWARAE LLITHFAEN**
**Ymgeisydd: Pwyllgor Cae Chwarae Llithfaen**
**Grant: £8,834**

## ENW PROSIECT: MONITRO GEIFR GWYLLT YR ARDAL

**Ymgeisydd: Nant Gwrtheyrn**
**Grant: £6,560**

Mae'r Geifr gwyllt wedi bod yn crwydro rhwng Pistyll a Trefor ers amser maith bellach, ag mae posib i chi weld un o'r creaduriaid yma os cerddwch ar hyd llwybr yr arfordir (byddwch yn eu harogli cyn ei gweld nhw!). Yn ystod y blynyddoedd d'waethaf mae poblogaeth y geifr wedi cynyddu, a mae sôn eu bod nhw yn fwy beiddgar nag o'r blaen ag eu bod nhw yn trefeillio yn bellach. Y rheswm am hyn mae'n debyg ydi'r gaeafau mwyn, a fod y tymor tyfu wedi ymestyn. Bwriad y prosiect yma oedd i gyfri y geifr gwyllt rhwng Pistyll a Trefor, gweld o faint yr oedd eu poblogaeth wedi tyfu ag os oedd y geifr mewn cyflwr da.

Y bygythiad os ydi'r geifr yn gôr-bori ydi fod bioamrywiaeth yn cael ei amharu, a hefyd fod posibilrwydd i'r geifr lwgu. I gyfri y geifr roedd drôns yn cael eu defnyddio, a hefyd camerâu llwybr. Roedd myfyrwyr o Brifysgol Bangor yn cydweithio efo'r prosiect. Ers blynyddoedd mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod y cyfri y geifr yn yr ardal yma a wedi cael niferoedd o tua 70-80 pob tro. Yn ystod y cyfrif eleni roedd y niferoedd wedi dyblu i 140 o eifr. Mae hyn yn gynnydd anferth a rhesymau posib am y cynnydd ydi y gaeafau mwyn sydd wedi bod dros y blynyddoedd diwethaf, a fod mwy o'r geifr ifanc yn goroesi.



## ENW PROSIECT: BWS ARFORDIR LLŶN

**Ymgeisydd: O Ddrws i Ddrws**
**Grant: £16,200**

Mae bws arfordir Llŷn yn brosiect sydd wedi bod yn rhedeg ers sawl blwyddyn, ag yn rhoi y cyfle i chi fwynhau arfordir trawiadol Llŷn ar eich hamdden chi. Er mwyn defnyddio y gwasanaeth yma gwnewch yn siŵr eich bod wedi lawrlwytho yr ap Fflecsi. Unwaith y bydd yr ap ar eich ffôn symudol, bydd posib i chi archebu lle , a bydd y bws yn eich nol chi o fan penodol, ag yna mynd a chi o fewn ffiniau yr AHNE. Mae'n gyfle gwych i pobl sydd heb fynediad at gerbyd i ddarganfod arfordir trawiadol Llŷn, nei i rheini o honna chi sydd eisiau cerdded y llwybr arfordir, ag eich bod yn gadael eich car mewn un man ag yn cael eich pigo fynnu gan y bws i fynd yn ôl at eich car. O Ddrws i Ddrws sydd yn gyfrifol am redeg y gwasanaeth yma.



## ENW PROSIECT: DINAS DINLLE A LLŶN

**Ymgeisydd: Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd**
**Grant: £9,950**



Dyma safle cloddio bryngaer arfordirol ger Dinas Dinlle, cafodd y gwaith eu wneud o dan arweiniad Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd. Yn ystod y cloddio, darganfuwyd safleoedd hanesyddol o oes y Rhufeiniad. Datgelodd un ffos dŷ crwn mawr wedi'i gadw'n dda , sy'n ymddengys iddo gael ei feddiannu yn yr Oes Haearn a'r cyfnod Rhufeinig. Roedd y diamedr allanol oddeutu 13.5 metr, a trwch y waliau gyd at 2.5 metr ar rhai mannau. Datgelodd y ffos arall nifer o strwythurau dryslyd, sy'n gofyn am waith pellach i'w deall yn llawn.



Yn anffodus mae ochor gogleddol y safle yma yn cael ei erydu gan y môr, felly mae angen gwneud y gorau o'r ymchwil ar y bryngaer yma cyn iddo ddiflannu. Mae Dinas Dinlle ychydig tu allan i ffin yr AHNE wrth gwrs, ond mae arwyddocâd safle hanesyddol fel yma yn bwysig tu hwnt. Roedd gwirfoddolwyr, archeolegwyr, a phlant ysgolion lleol i gyd yn rhan o'r gwaith diddorol yma. Roedd hwn yn brosiect addysgiadol tu hwnt, a bu amryw o ysgolion yno yn dysgu am waith archeolegol, yn wir darganfuwyd un o'r arteffactau prinnaf gan eneth ysgol gynradd. Daeth hi o hyd i graidd fflint, eitem a oedd yn cael ei ddefnyddio i greu tân . Maent yn gobeithio cario ymlaen hefo y gwaith flwyddyn nesaf.



Am fwy o wybodaeth a lluniau ewch i **www.heneb.co.uk**.



cynllun adfer natur

# Cynllun Gweithredu
# ADFER NATUR GWYNEDD A LLŶN



Roedd 2019 yn drobwynt o ran cydnabod yr argyfwng natur a chynyddu camau gweithredu ar gyfer bioamrywiaeth. Fe gyhoeddwyd argyfwng hinsawdd gan Lywodraeth Cymru, gyda Chyngor Gwynedd yn dilyn ym mis Mawrth 2019. Mewn ymateb, cyhoeddwyd y Cynllun Gweithredu Adfer Natur Genedlaethol a rhan 1, “Ein strategaeth ar gyfer Natur”, yn nodi’r ymrwymiad i wrthdroi’r golled mewn bioamrywiaeth yng Nghymru a’r amcanion ar gyfer gweithredu (Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru 2020 i 2021 (llyw.cymru);). Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi datgan argyfwng natur ym mis Mehefin 2021.

Yn dilyn ymlaen o hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i bob Awdurdod Lleol, Parc Cenedlaethol ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ledled Cymru i gynhyrchu Cynllun Gweithredu eu hunain, yn manylu ar sut y dylai pob ardal fynd i'r afael ac adfer natur. Mae Gwynedd a Llŷn wedi penderfynu cynhyrchu Cynllun Gweithredu ar y cyd, a fydd nid yn unig mynd i’r afael â’r amcanion cenedlaethol, ond ymateb i’r heriau a’r pryderon amgylcheddol yn nes at adref. Er enghraifft, pan ofynnwyd i gymunedau Llŷn beth sy’n dda am eu hardal yn ystod ymgynghoriadau diweddar ar gyfer prosiect Ardal Ni, “Amgylchedd ac agosatrwydd yn atyniadau naturiol e.e.. mynyddoedd, lan y môr a chefn gwlad” sgoriodd uchaf. Rydym am sicrhau bod gennym gynllun yn ei le sy’n sicrhau bod ein cymunedau a thrigolion lleol ar draws Gwynedd a Llŷn yn gallu parhau i fwynhau ac elwa o fyd natur.

Mae’r Cynllun Gweithredu ei hun yn ddogfen bolisi yr ydym yn ei chynhyrchu a fydd yn cynorthwyo adferiad natur sir Gwynedd ac Ardal o Harddwch Llŷn. Mae'r ddogfen wedi'i hanelu at amrywiaeth eang o randdeiliaid, partneriaid, grwpiau ac unigolion sydd â diddordeb mewn adferiad byd natur neu sy'n allweddol iddo. Byddwn yn cynnal ymgynghoriadau ar gyfer grwpiau amrywiol gan ddechrau ddiwedd y gwanwyn eleni (2022). Bydd canlyniadau'r ymgynghoriadau hyn yn cael eu defnyddio i arwain a sbarduno gweithredu tuag at adferiad natur yng Ngwynedd a Llŷn, ac rydym yn eich hannog i gymryd rhan lle y gallwch.

Am rhagor o wybodaeth am y Cynllun Gweithredu Adfer Natur, ewch i wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru drwy glicio ar y ddolen ganlynol: Wales Biodiversity Partnership - Nature Recovery Action Plan (**biodiversitywales.org.uk**)



# Pen Llŷn a'r Sarnau
# Prosiectau newydd yn yr ACA

Mae Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Pen Llŷn a'r Sarnau yn ardal forol warchodedig sy'n ymestyn o Nefyn ar arfordir gogleddol Pen Llŷn, dros 230km i lawr at oddeutu milltir i'r gogledd o Aberystwyth. Mae ardaloedd fel rhain yn cael eu dynodi am gyfoeth eu cynefinoedd a'u rhywogaethau sydd yn cael eu gweld yn bwysig ar lefel rhyngwladol – felly yn sicr mae Pen Llŷn a'r Sarnau yn frith o gyfoeth naturiol.

Fel rhan o'n gwaith yma yn yr ACA, rydym yn brysur yn gweithio ar nifer fawr o brosiectau cadwriaethol er mwyn gwella'r amgylchedd ac adfer bywyd gwyllt morol yr ardal – felly braf yw cael cyhoeddi ein bod newydd gychwyn ar ddau brosiect newydd sbon sef **Natur am Byth a Morwellt – Achub Cefnfor** mewn partneriaeth â nifer o asiantaethau ar draws Cymru.

Ariennir y ddau brosiect yma gan y Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, a'u nod yw gwella'r amgylchedd yn benodol mewn partneriaeth a phobl a chymunedau lleol ac asiantaethau gwahanol er lles ein cymunedau, yr amgylchedd, a byd natur.

Ar hyn o bryd mae'r ddau brosiect yma yn y camau dechreuol, ac felly rydym wrthi yn brysur yn siarad â phobl, ymchwilio ac ymgynghori er mwyn datblygu cynllun effeithiol fydd yn siapio cyfeiriad y prosiectau hyn. Er mwyn sicrhau llwyddiant unrhyw brosiect mae cefnogaeth ac arbenigedd bobl leol yn holl bwysig. Felly os oes gennych ddiddordeb cymryd rhan, lleisio barn neu helpu llywio unrhyw un o'r prosiectau hyn, mi fyddwn ni wrth ein bodda yn clywed gennych. Dyma fwy o wybodaeth am y ddau brosiect newydd sydd ar y gweill:

## Prosiect Natur am Byth – Trysor y Môr





Un prosiect mawr ar draws Cymru yw prosiect **Natur am Byth**. Mae'n cwmpasu un ar ddeg o brosiectau amgylcheddol llai, sydd i gyd yn rhannu un amcan cyffredin – sef i adfer amrywiaeth o rywogaethau gwahanol a phenodol sydd mewn risg o ddifodiant yng Nghymru.

Mae'r prosiect hwn yn un hynod gyffroes, gyda gwaith pwysig yn cael ei wneud er mwyn gwarchod ystod eang o rywogaethau morol a rhywogaethau tirol megis; chwilen yr wyddfa ; yr ystlum pedol leiaf; llygoden bengron y dŵr; a'r fran goesgoch - mond i enwi rhai.

Fel rhan o **Natur am Byth**, rôl tîm ACA Pen Llŷn a'r Sarnau yw gweithio yn benodol ar is- brosiect o'r enw **Trysor y Môr** sydd a'r nod o adfer rhywogaethau morol megis cimwch coch, wystrys brodorol, môr-wyntyll pinc a morwellt yn ogystal â gweithio tuag at fonitro a gwella ansawdd dŵr.

Mae hwn yn brosiect uchelgeisiol iawn, ac wrth i'r prosiect esblygu rydym yn gobeithio y bydd digon o cyfleoedd i wirfoddoli a dysgu am fywyd gwyllt yn dod i'r amlwg er mwyn helpu cefnogi'r prosiect a gwarchod rhai o rywogaethau mwyaf bregus Cymru.

## Prosiect Morwellt – Achub Cefnfor

Mae'n ffaith adnabyddus erbyn hyn fod morwellt nid yn unig yn cefnogi ac yn hyrwyddo bioamrywiaeth ond hefyd yn bwysig er mwyn gwarchod ein hinsawdd rhag cynhesu byd-eang. Mae morwellt yn blanhigyn arbennig iawn, gyda llawer o fanteision i'n hiechyd a lles ni fel bodau dynol hefyd. Fodd bynnag, dros y ganrif ddiwethaf, yn anffodus mae dolydd morwellt wedi prinhau yn arw ar draws y byd, ac wedi bron a diflannu oddi ar arfordir Prydain.

Serch hynny, nod prosiect **Morwellt – Achub Cefnfor** yw i ail greu ac ail hadu ardal maint 10 hectar o wely'r môr ger arfordir Pen Llŷn ac Ynys Môn gyda morwellt. Bydd hyn yn cefnogi'r ardaloedd morol hyn i drawsnewid yn nôl i'w cyflwr cynhenid iach flaenorol, gydag effaith cadarnhaol ar yr hinsawdd a bioamrywiaeth leol.

Wyddoch chi hefyd fod llawer o bysgod bach yn cael eu magu a'i meithrin ymysg morwellt? Ac felly gyda chynnydd mewn morwellt ar ein harfordir bydd mantais economaidd yn lleol hefyd gyda chynnydd mewn niferoedd o bysgod masnachol fydd yn cynefino yn ein dyfroedd.

Fodd bynnag, mae ail hadu 10 hectar yn dipyn o gamp - felly eto, byddai'n grêt clywed gennych os oes gennych awydd cymryd rhan yn y prosiect. Cysylltwch hefyd os oes genych unrhyw ymholiad yn ymwneud a'n gwaith, arbenigedd fyddai'n ddefnyddiol, neu amser, egni ac awydd i ymgymryd ag ychydig o waith cadwriaethol holl bwysig.

**info@penllynarsarnau.co.uk** **www.penllynarsarnau.co.uk**

@ ACA_PEN_LLYN_AR_SARNAU_SAC

@ Pen Llŷn a'r Sarnau

@ ACA_PLAS_SAC

@ ACA Pen Llŷn a'r Sarnau SAC

GwyrddNi

# GwyrddNi Pen Llŷn

Ydych chi wedi clywed yr enw GwyrddNi yn ddiweddar? Mae tipyn o son wedi bod yn lleol am y mudiad newydd sydd wedi ei greu wrth i chwech menter gymdeithasol yng Ngwynedd ddod ynghŷd sef Datblygiadau Egni Gwledig (DEG), Ynni Llŷn, Cwmni Bro, Siop/Griffiths, Partneriaeth Ogwen a Cyd Ynni.

Cefnogi cymunedau i weithredu ar newid hinsawdd yn lleol yw nod y mudiad, sy'n cael ei ariannu gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol. Y ffordd mae GwyrddNi'n bwriadu gwneud hynny yw trwy ddod â phobl at ei gilydd mewn Cynulliadau Cymunedol ar yr Hinsawdd mewn pum ardal: Pen Llŷn, Bro Ffestiniog, Dyffryn Nantlle, Dyffryn Ogwen a Dyffryn Peris, gan weithio gyda'r partner lleol ym mhob achos.

Wedi wythnosau o recriwtio i annog trigolion yr ardaloedd i fynegi diddordeb mewn mynychu eu cynulliad lleol, caiff 50 o ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu dethol i fynychu'r cynulliadau i gynrychioli'r gymuned ehangach, gan roi ystyriaeth i ddemograffeg megis oedran, rhyw, ethnigrwydd, a safbwyntiau hefyd, er enghraifft eich barn ar newid hinsawdd. Does dim rhaid gwybod unrhyw beth i gymryd rhan, dim ond bod yn barod i gyfrannu a bod yn barod i wrando.

Bydd cyfred o bedwar cynulliad ym mhob ardal, neu sesiynau sy'n gyfwerth â hynny, e.e wyth sesiwn byrach, gyda chynulliad cyntaf Pen Llŷn yn cael ei gynnal yn Ysgol Botwnnog ar ddydd Sadwrn, yr 2il o Orffennaf eleni. Bydd nifer o siaradwyr gwadd yn dod i'r cynulliadau i rannu profiadau a syniadau, ac mae ambell drip neu ymweliad maes ar y cardiau hefyd. Ar ôl cael cyfle gwerthfawr i ddysgu a thrafod bydd aelodau'r cynulliad yn cydweithio i drafod beth all weithio orau yn yr adral hon, cyn mynd ati i greu Cynllun Gweithredu Hinsawdd ar gyfer Pen Llŷn. Ail ran y prosiect fydd rhoi'r cwbl ar waith.

Felly mae'n bosib eich bod eisoes wedi eich dethol fel un o'r aelodau, neu erioed wedi clywed am GwyrddNi - naill ffordd bydd cyfle i bawb o drigolion Llŷn fod yn rhan o'r mudiad ehangach ar hyd y daith felly ewch draw i www.gwyrddni.cymru i ddarllen mwy, neu dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol. Dyma gyfle cyffrous a gwahanol i ni greu dyfodol iach a ffyniannus i'r genhedlaeth nesaf yma ym Mhen Llŷn.

**Casia Wiliam**
Swyddog Cyfathrebu Cymunedol GwyrddNi
casia@deg.cymru

CREU • CYMUNEDAU • GWYRDD
GWYRDDNI
COMMUNITY • CLIMATE • ACTION